

Glas

Rhif 206
Ebrill 2025

Llên
natur
Cymdeithas Edward Llwyd
Bwletin misol

Cyhoeddi Glas gan Gymdeithas Edward Llwyd

Llosgi ethin a'r lleuad
- Llanfairfechan -
Glan y Môr Elias
13 Mawrth 2025
Eirlys Edwards-Behi



Mae'r rhifyn hwn yn cynnwys adnodd i blant, athrawon a rhieni, ar y dudalen gefn.
Cysylltwch â ni trwy bwletinglas.llennatur@gmail.com
Mae elfennau o Brosiect Llên Natur ar Facebook a Wikipedia

Pigau'r môr-wial



Lluniau gan Gill Brown



Be di'r pethau pigog 'ma?

Llinos Griffith



Gweddillion bonyn lludwymon (*kelp*) lle ma nhw wedi 'angori' ar y garreg. Mae hyn yn digwydd yn dilyn stormydd lle mae'r tyfiant yn cael ei rwygo ymaith gan nerth a grym y môr. Dewi Lewis

Cymylau "Mammatus"




Cymylau "Mammatus" ? - Dros ben Niwbwrch 21/03/2025 y pnawn yma . Tywydd garw ar ei ffordd?


Annwen Hughes

Dyma'r amodau a achosodd y cymylau hyn yn ôl Gorsaf Tywydd Maes Gwynedd, Waunfawr: **1.** tymheredd yn gostwng yn sydyn ar ôl 18.00^{awr}; **2.** y gwahaniaeth rhwng y tymheredd a'r gwllithbwynt yn culhau; **3.** dod yn law am 19.00^{awr} ar ôl sychder gweddol hir; **4.** y gwasgedd yn gostwng trwy'r dydd; **5.** pelydriad heulol (cymylu!) yn gostwng tua'r un pryd ag **1, 2** a **3**.

March 21, 2025



Llun Anton Yankovyi - Own work (Wikimedia)



Gwyfynod Gardd yng Nghymru

Crynodeb byr o ganlyniadau Cynllun Gwyfynod Gardd yng Nghymru ar gyfer 2024

Norman Lowe (cyfieithiad Google, golygwyd gan DB)

Mae'r Cynllun Gwyfynod Gardd (*Garden Monitoring Scheme*) wedi bod yn monitro nifer y gwyfynod gardd cyffredin ym Mhrydain ac Iwerddon ers 2007. Mae'r arolwg yn cwmpasu'r 36 wythnos rhwng mis Mawrth a dechrau mis Tachwedd. Mae **Tabl 1** yn cymharu canlyniadau Cymru eleni o'r 32 safle y derbyniwyd canlyniadau llawn ohonynt â rhai'r llynedd, gan ddangos y newid % yn y golofn olaf.

Rheng	Enw Cymraeg safonol	Cyf'edd per		% newid
		2024	2023	
1	Isadain felen fawr	100	204.4	-51.08
2	Calon a saeth	38.8	171.8	-77.44
3	Melyn y drain	37.3	44.93	-17.1
4	Clai lloerol	34.3	30.52	12.23
5	Crynwr gothig	33.4	26.55	25.82
6	fflamysgwydd	28.7	31.97	-10.16
7=	Clai smotyn melyn	26.3	35.34	-25.55
7=	Llwyd rhydlyd/Llwyd llyfn <i>agg.</i>	26.3	70.31	-62.58
9	Troedwas cyffredin	25.7	26.76	-3.89
10	Brychan cleisiog cyffredin	23.2	24.1	-3.8
11	Troedwas llwydaidd	21.5	19.59	9.93
12	Ton rubanog	18.1	17.69	2.11
13	Crynwr cyffredin	16.9	22.72	-25.74
14	Tortrics afalau brown golau	16.8	19.72	-14.92
15	Gwladwr cyffredin <i>agg.</i>	16.4	39.34	-58.22
16	Rhisglyn helyg	15.4	27.28	-43.63
17	Rhisglyn bwâu tywyll	14.8	53.86	-72.5
18	Crynwr bach	14.2	14.62	-2.75
19	Gwelltwyfyn tair llinell	14	17.9	-21.6
20	Ermin llwydfelyn	13.3	13.69	-2.53
21	Smotyn sgwar bach	13.3	8.14	62.82
22	Gem fforch arian	12.8	20.1	-36.11
23	Mannog melynaid	12.6	15.28	-17.56
24	Isadain felen dywyll	12.5	32.07	-61.02
25	Brychan gwyrdd	10.5	6.69	56.49
26	Gwyfyn Tachwedd <i>agg.</i>	10.4	10.38	0.26
27	Gweirwyfyn y gerddi	9.78	123	-92.05
28	Swch	9.75	8.34	16.84
29	Crynwr amrywiol	9.59	14.93	-35.75
30	Isadain felen fach	9.22	16.97	-45.66

Tabl 1 GMS y 30 rhywogaeth nifer uchaf ar gyfer Cymru 2024

Mae'r niferoedd positif yn dynodi cynnydd dros y llynedd ac mae'r niferoedd negyddol, a ddangosir mewn glas,



yn dangos gostyngiad. Gellir gweld mai dim ond 8 o'r 30 rhywogaeth sydd wedi cynyddu gyda dim ond tair rhywogaeth, **Crynwr Gothig**, **Smotyn sgwar-bach** a **Brychan Gwyrdd** yn dangos cynnydd o dros 20%. Ar ben arall y raddfa, o'r 22 o rhywogaethau a aeth i lawr, gostyngodd **Calon a Dart**, **Rhisglyn Bwâu Tywyll** a **Gweirwyfyn y gerddi** dros 70%.

Mae'r canlyniadau uchod yn cwmpasu'r ddwy flynedd ddiwethaf yn unig, ond mae GMS wedi bod yn cofnodi ers 2007 ac mae 213 o rywogaethau wedi'u monitro bob blwyddyn ers hynny. O'r rhain, dim ond un rhywogaeth, **Carped Gwyrdd**, a gofnodwyd yn y niferoedd uchaf ers 2007. Cofnodwyd 16 (7.5%) yn y maint cymedrig isaf ers y dechrau ac mae **Tabl 2** yn dangos y canlyniadau ar gyfer y rhain o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r ddwy golofn ganol o rifau yn dangos y niferoedd cymedrig uchaf a gofnodwyd ar gyfer pob rhywogaeth, a'r flwyddyn cofnodi, ac mae'r golofn ar y dde yn dangos y gymhareb rhwng y niferoedd uchaf ac isaf.


Enw safonol	2024 Cyf'edd isaf	Cyfartaledd uchaf		Uchaf i'r isaf
		Nifer	Blwyddyn	
Rhisglyn bwâu tywyll	14.81	53.86	2023	3.6
Isadain felen dywyll	12.5	48.53	2011	3.9
Gwladwr siderog	6.09	19.93	2023	3.3
Fflam	5.53	24.64	2010	4.5
Clai tri smotyn	1.94	17.31	2011	8.9
Gwyfyn bwâu llwydfelyn	1.56	12.42	2013	8
Gwyfyn gwinau cyffredin	1.47	10.97	2015	7.5
Carplog cyll	1.38	4.14	2014	3
Llenni crychlyd	1.06	7.14	2013	6.7
Pres gloyw	1	9.11	2013	9.1
Gwladwr yr hydref	0.66	8.5	2007	12.9
Clai mannog	0.56	7.11	2013	12.7
Crwbach cribog	0.34	2.25	2013	6.6
Gwyfyn dotiog	0.25	5.63	2018	22.5
Gwyfyn banadl	0.13	3.78	2009	29.1
Gwyfyn corn carw	0.06	17.86	2011	297.7

Tabl 2 Y rhywogaethau GMS hynny a gofnodwyd mewn niferoedd is yng Nghymru yn 2024 nag unrhyw flwyddyn flaenorol


Ar gyfer **gwyfynod dotiog**, **Gwyfyn banadl** a **Gwyfyn corn carw**, roedd 2024 yn flwyddyn wael iawn ac mae **Ffigwr 1** yn siartio'r niferoedd cymedrig dros y 18 mlynedd ar gyfer y rhywogaethau hyn. A yw hyn yn dynodi dirywiad parhaol yng Nghymru ac efallai mewn manau eraill?

Mae **Ffigwr 2**, yn dangos un o'r rhywogaethau mwyaf cyffredin, **Dart calon a saeth**. Mae'r patrwm yn dangos penllanw a thrai rheolaidd, y penllanw yn digwydd bob pedair blynedd. Gallai'r rhesymau am hyn wneud astudiaeth ddiddorol.

Llun: Gwawr Mowatt




Llun: Bruce Hurst



Mae'r patrwm cylchol hwn yn sicr yn haeddu mwy o sylw gwyddonol.

Y prae a'r rheibydd

Llun Nia Evans



Prae a rheibydd yng Nghors Ddyga - 9 Mawrth 2025

- Yr ysglyfaeth: crothell neu ddoctor coch 'yn ei goch'.
- Yr ysglyfaethwr: o edrych i fyw llygad y creyr pwy ddeudodd bod y deinosor wedi ein gadael?!!


Crëyr glas arall - 20 Mawrth 2025



Llun Alun Williams

Tanau Mawrth

Bethan Moseley ■ Tân mynydd yn llygru'r awyr las, Llyn Cwm Dulyn heddiw ■ 19 Mawrth 2025



Derec Owen ■ 19 Mawrth 2025



Eirlys Edwards-Behi ■ 18 Mawrth 2025



Eirlys Edwards-Behi ■ 13 Mawrth 2025



Iwan Williams ■ Sbio ar y Berwyn o Glawdd Newydd heno 'ma ■ 20 Mawrth 2025



Eirlys Edwards-Behi ■ 13 Mawrth 2025



Tanau da a Thanau drwg

■ Well bod e'n llosgi nawr nag yn yr haf pan mae'r mawn yn sych. Mae'r holl danau hefyd yn dangos y perygl o golli niferoedd y defaid a'r gwartheg oedd yn pori'r tiroedd yma yn draddodiadol. Mae angen ffermio'r ardaloedd yna er lles bioamrywiaeth a'n cymunedau gwledig. **Huw Williams**

■ **Gobeithio bod yna ddim mawn** wrth ymyl yr un o rhain, mae o yn medru llosgi trwy gaeaf. **Wendy Jones**

■ Dyma son am eifr ac atal tân: **dolen**
Wendy Jones - dyfyniad o 'Casgliadau' y gwaith rwy'ti'n awgrymu i ni ddilyn: *'The technique also requires further research, since information about grazing for fuel reduction is anecdotal and there is only limited scientific information currently available, mainly for the Mediterranean area ([64], [44]).'*

Rydan ni'n anghofio yn rhy hawdd y difrod mae geifr wedi gwneud gan wladuchwyr Ewropeaidd dros y byd yn absenoldeb ysglyfaethwyr i'w hela. **Llên Natur**

Buasem ni, fel "ysglyfaethwyr" yn medru eu bwyta. **Wendy Jones**

CALL OUT

Shortly after mid day today crews from Shap and Penrith as well as a wildfire crew requested from Appleby, were mobilised to Ralfland common west of Shap. On arrival crews were met by local farmers who assisted in transporting and directing crews to the scene due to difficult access. A fire covering approximately 100m x 300m was well alight on arrival and was dealt with using beaters and scotty back packs...

Kevin Davies - ond beth am y gylfinir a'r gornchwigen druan sydd erbyn hyn wedi cychwyn nythu ar ein mawndiroedd? 'Chydig ganrifoedd yn ôl bydda llawer iawn o'n mawndiroedd 'dan canopi o goed a rheini'n amddiffyn y ddaear rhag gwres yr haul. Yn anffodus 'does bosib rheoli 'pen bach' â smôc neu barbiciw...

Dafydd Attenborough - o be wela i mae'r gylfinir ar cornchwiglod i gyd yn nythu'n llwyddiannus ar diroedd yr ystadau sy'n llosgi a rheoli yn dymhorol. Mae'r llofydd a oeddant yn arfer a nythu ynddo yma wedi tyfu'n wyllt ers i'r llosgi gael ei rwystro gan y cynlluniau amgylcheddol.

Rhan o sgiliau'r goddeithiwr (y llosgwr rhostir dan reolaeth) yw dewis diwrnod o wynt ysgafn sy'n cario'r fflammau yn gyflym dros yr wyneb i losgi'r 'ffeg' yn unig a heb fod yn rhy boeth i gynnau'r mawn odditano

Rhan arall o sgiliau y person hwn yw llosgi ardal fechan TUAG AT rwystr fel wal neu ffrwyniad-tân (*fire break*) a bod yn barod gyda digon o bobl eraill i dampio'r cyrion lle bo angen. Gwaith ar y cyd rhwng cymdogaion...

Nid yw'r tanau mawr, fel rydan ni'n gweld yn rhy aml, yn dod yn agos at y llosgi sgilgar sy'n perthyn i'r goddeithiwr traddodiadol.

Es i yn ôl bore ma i feibil fy hyfforddiant ecolegol *The British Islands and their Vegetation* gan AG Tansley a gyhoeddwyd yn yr 1930au. Roeddwn i am atgoffa fy hun o'r ffactorau sydd wedi cadw rhosdir (*heath*) am gyhyd. Mae tri ffactor yn ôl Tansley: 1. tannau rheolaidd, 2. gwynt a 3. pori (rhy ychydig ac mae coed yn symyd drosto fel sy'n digwydd rwan yn aml... gormod ac mae'r grugdir yn ildio i crawc a gweiriau eraill diwerth). Mae rhostiroedd yn mynd yn ôl mor bell mae yna *biota* (anifeiliad a phlanhigion) cwbl unigryw i'r cynefin hwnnw sydd, mae'n debyg, wedi ei greu gan ddyn yn mynd yn ôl i'r cynoesoedd.

Dyma restr dop fy mhen o'r *biota* hynny (dim trefn arbennig): boda tinwen, troellwr mawr, cwlwm cariad, ymerawdwr, wyllyn y gogledd (gwyfynnod), gwiber, gylfinir, grugiar, cwtiad aur, cudyll bach, grug yr ysgub, grug croesddail... a myrdd o rywogaethau eraill (mae'r enwau *heath* a *heather* yn gytras).

Mae tanau yn aml yn cael eu hachosi gan ddifaterwch a diffyg gofal pobl yn ymweld a chefn gwlad, ond hefyd gan DDIFYG llosgi mewn llefydd ddylai fod wedi cael eu llosgi yn rheolaidd i gadw cynefin y gylfinir, y grugiar, a'r troellwr mawr a llawer o wyfynod a phryfed eraill. Mae tanau (lleiafrif erbyn hyn) wedi eu cynnu'n fwrriadol ond yn sgilgar o dan y drefn a elwid yn GODDEITHIO ('creithio' erbyn heddiw ym Mhenllŷn). Petaem yn cadw'r gwahanol achosion hyn mewn cof, ni fasa rhaid mynd i stêm o gamddealltwriaeth pob tro mae yna dân yn ymddangos, yn enwedig yr amser hon o'r flwyddyn ar ôl pythefnos o sychder.

Adnabyddir cynefin RHOSTIR (*heath*) tir isel o leiaf fel *pyroclimax* - sef llysydfiant fyddai wedi ei goedwigo ganrifoedd a mwy yn ôl onibai am losgi (*pyro* = tân). Rydan ni'n gweld rhostiroedd yn 'coedio' drosodd yn gyflym heddiw (ee. Moel Smatho a Moel Tryfan am y tro cyntaf erioed oherwydd diffyg llosgi. Y peryg ydi, os gaiff ei losgi rwan mi fydd y tân yn rhy ffyrnig, rhyg eang a rhy ddyfn a chynefin cyfoethog y grug yn cael ei drawsnewid i frwyn a chrawc diffaeth.

Tanau da a Thanau drwg

Mi fydd yn werth edrych ar olion y tân yn y lluniau ar tudalen 5 i weld **a.** beth sydd yn llosgi? **b.** beth sydd yn tyfu yn ôl dros y blynyddoedd i ddod? [Llên Natur](#)

Sylw ychwanegol i'r darn ar y tannau

Dydi tannau dan reolaeth yn y gwanwyn ddim yn bethau newydd. Dyma enghraifft o oddeithio.

23 Mawrth 1953

Lle: Ty Uchaf, Padog

Ffynhonnell: **Dyddiadur DO Jones**, Padog (o deipysgrif electronig, gyda chaniatad y teulu) DB
Nodiadau: 23. Llosgi hen ffeg yn y ffridd uchaf, andros o dan 3 yn ei ddiffoddi. Gwres mawr a sych.

Llosgodd DO Jones 'hen ffeg', neu weithiau eithin, o leiaf 27 o weithiau ym mis Mawrth ac Ebrill rhwng 1934 - 1961, bron iawn yn orchwyl blynyddol.

Pennill cyntaf Y Gylfinir:

Dy alwad glywir hanner dydd
Fel fflwt hyfrydlais uwch y rhos;
Fel chwiban bugail a fo gudd
Dy alwad glywir hanner nos:
Nes clywir, pan ddwysâ dy swm
Cyfarth dy anweledig gwn.

Casgliad gan Dewi Lewis i ymddangos y mis nesaf

Un o hoff adar y golygydd



Nico - Llund Alun Williams
25 Mawrth 2025

Cwn Ebrill - tamaid i aros pryd



Llund Dewi Edwards

Oes gennych enghreifftiau eraill o ylfnirod mewn llenyddiaeth. Dewch â nhw yma - neu cyfranwch hwy yn syth i erthygl Y Gylfinir yn y Wicipedia Cymraeg:

[Wiki/Gylfinir](#)

"Cŵn Ebrill, yw'r enw mewn rhai ardaloedd ar ylfnirod yn enwedig pan glywir eu galwadau liw nos yn y gwanwyn cynnar. Nid yw'r alwad yn anymunol ond gwn am rai sy'n arswydo wrth ei chlywed, er iddynt wadu unrhyw wybodaeth am Gwn Annwn, a aethai ar un adeg ar herw am eneidiau'r meirw yn yr awyr."

Dyma bennill cyntaf Y Gilfinir gan R. Williams Parry

Mae cyfieithiad y pennill hwn ar gael yn T. Gwynn Jones *Welsh Folklore And Folk Custom* yn y bennod sy'n cyfeirio at "*Ghosts and other apparitions*".

Derbyn Glas

Mae Bwletin Llên Natur ar gael yn rhad ac am ddim, yn ddigymell pob mis!



Glas



Cysylltwch gyda ni:

bwletinglas.llennatur@gmail.com

2 rydydd o deulu'r *Recurvirostridae*

M

cambig *Recurvirostra avosetta*



Cynyddu ym Mhrydain, o dde Ewrop, wrth i'r hinsawdd cynhesu

nïau oedolion

media Commons



t y corff:

Mawr Canolig Bach

Prin iawn ym Mhrydain

hirgoes adeinddu *Himantopus himantopus*



Pen gwyn, cefn du, a choesau coch

Wedi nythu weithiau ym Mhrydain

Rydym ni'n gorffen ein cyfres o bosteri rhydyddion gyda dau aderyn gosgeiddig dros ben.

Croeso i chi glicio ar y delweddau unigol isod i weld y posterï gwreiddiol yn y bwletinâu diweddaraf. Y bwriad yw cyhoeddi'r rhain fel cyfres argraffiedig.

